



Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCCLLL@Cynulliad.cymru

1/10/2015

Annwyl Gadeirydd

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) – gofynion dwyieithog ar gyfer Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol

1. Diolch ichi am eich llythyr yn holi am ofynion ieithyddol y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol.
2. Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015¹ yn pennu safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mewn perthynas â Gweinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Ar 30 Medi 2015, yn dilyn proses o osod safonau yn unol â'r Mesur anfonwyd hysbysiadau cydymffurfio i'r sefydliadau hyn. Mae copïau o'r hysbysiadau cydymffurfio i'w gweld ar wefan Comisiynydd y Gymraeg². Mae'r hysbysiadau cydymffurfio yn datgan y diwrnod neu'r diwrnodau gosod, sef y diwrnod y daw'n ofynnol i'r cyrff gydymffurfio â'r safonau a ddyroddir iddynt. Mae'r cynharaf o'r diwrnodau gosod 6 mis o'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad cydymffurfio.
3. Mae safonau ynghylch corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus (safonau 38-39) a safonau ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff (safonau 52-57) yn berthnasol i'ch ymholiad.
4. Gosodwyd safonau mewn perthynas ag arddangos deunydd yn gyhoeddus (safonau 38-39) a safonau ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff (safonau 52-57) ar awdurdodau lleol. Nid oedd eithriadau penodol yn ymwneud â'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol a gaiff eu creu a'u cynnal gan awdurdodau lleol.

¹ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/pdfs/wsi_20150996_mi.pdf

² www.comisiynyddygymraeg.cymru

Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

5. Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn nodi yn 1 (5) (a) 'mae cyfeiriadau at unrhyw weithgaredd sy'n cael ei gyflawni gan gorff, neu at unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan gorff, i'w darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at y gweithgaredd hwnnw yn cael ei gyflawni ar ran y corff, neu at y gwasanaethau hwnnw yn cael ei ddarparu ar ran y corff, gan drydydd parti o dan drefniadau a wneir rhwng y trydydd parti a'r corff'. Gallasai'r cymal hwn fod yn berthnasol yng nghyd-destun awdurdodau lleol yn dirprwyo eu swyddogaethau mewn perthynas â'r Cofnodion i Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru. Mae gofyniad ar Lywodraeth Cymru i arddangos cofnodion hanesyddol ac archif Cadw a grëwyd o 30 Mawrth 2016 ymlaen yn ddwyieithog yn unol â safon 38.
6. Hoffwn ategu'r hyn a nodais yn fymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil mewn perthynas â'r canllawiau statudol. Rwy'n parhau o'r farn:
 - y dylai'r canllawiau dynnu sylw penodol at yr angen i gynnal a rhannu data dwyieithog a darparu gwasanaethau ar-lein dwyieithog yn unol â safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
 - y dylai'r canllawiau gynnwys canllawiau penodol ynghylch enwau'r nodweddion ac iaith y cofnodion.
 - y dylai'r canllawiau gynnwys yr angen i roi sylw dyladwy i gywirdeb orgraffyddol a tharddiad enwau'r nodweddion amgylcheddol a gofnodir yn y cofnodion hyn gan gofnodi'r enw Cymraeg neu Saesneg yn unig neu'r enw yn y ddwy iaith os yw'n bodoli.
 - y dylai'r canllawiau gynnwys yr angen i ymgynghori ag arbenigwyr ieithyddol ac enwau lleoedd wrth lunio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol.
 - y dylai'r canllawiau dynnu sylw penodol at yr angen i gynnal a rhannu data dwyieithog a darparu gwasanaethau ar-lein dwyieithog yn unol â safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
 - y dylai'r canllawiau nodi na ddylai perchnogion y nodweddion ffisegol a gofnodir newid enwau'r nodweddion ffisegol oherwydd bod eu henwau a'u tarddiad yn rhan annatod o'r nodweddion.

Gobeithio bod y wybodaeth hon o gymorth wrth ichi barhau i ystyried Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg